# Arwest Glan Geirionnydd

Gan
**GERAINT BOWEN**

YN 1863 sefydlodd deunaw o aelodau o Feirdd Ynys Prydain eu gorsedd eu hunain a'i galw Gorsedd Taliesin. Arweinydd y garfan annibynnol yma o orseddogion oedd William John Roberts (Gwilym Cowlyd), bardd, awdur a llyfrwerthwr o Lanrwst, 'gŵr hynod', yn ôl Y *Bywgraffiadur*.

Roedd ef fel y gweddill o'r gwrthgilwyr wedi'i gythruddo gan agwedd rhai eisteddfodwyr a fynnai roi'r Gadair am Bryddest yn hytrach nag am Awdl, trefnu'r Eisteddfod yn Genedlaethol ar yn ail yn y de a'r gogledd ac agor y drws ymhellach i'w seisnigeiddio.

I'r gorseddogion hyn, colli gafael ar yr awenau eisteddfodol yn llwyr fyddai caniatáu i'r 'gŵr Llandeinig' dra-arglwyddiaethu mewn materion eisteddfodol. Rhaid felly oedd gwrthweithio dylanwad 'gwenwyn y Reformed Eisteddfod'.

Dyna oedd penderfyniad nifer o orseddogion eraill heblaw carfan Gwilym Cowlyd a fuasai hyd yma yn deyrngar i'r Mudiad Eisteddfodol.

Cynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol o dan y drefn newydd yn Aberdâr yn Awst 1861. Ychydig ddyddiau cyn ei hagor cynhaliwyd gwrtheisteddfod a'i galw 'Eisteddfod Genedlaethol' yng Nghonwy a dwy flynedd yn ddiweddarach, ychydig ddyddiau cyn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe cynhaliwyd gwrtheisteddfod arall yn y Rhyl.

Bardd Cadair Eisteddfod Conwy oedd Gwilym Cowlyd ac yn Eisteddfod y Rhyl fe ddarllenodd gerdd o glod i'r wrtheisteddfod.


* * *

AR Y pumed o Awst 1863 cynhaliodd ef ei Orsedd neu ei Arwest gyntaf ar lan Llyn Geirionnydd uwchlaw Trefriw 'yng ngwyneb haul a llygad goleuni'.

Yn ei 'wŷs a'i wahodd' a anfonwyd allan ar ffurf cylchlythyr fe ddywed y byddai 'yn bresenol y cyntefigion Athrylith canlynol, a hwynt oll yn feirdd wrth fraint a defawd Beirdd Ynys Prydain', ac fe enwir nifer o orseddogion adnabyddus, megis I.D.Ffraid, Absalom Fardd, Llew Llwyfo, Dewi Arfon, Trebor Mai a Gethin. Ystyr 'cyntefigion' yn y cyswllt gorseddol oedd 'primitive poets', sef y rhai a oedd yn arddel cerdd dafod a Barddas, corff o athrawiaethau moesol a chrefyddol a fwriwyd ynghyd gan Iolo Morganwg ac a dadogwyd ar y drindod o feirdd cyntefig honedig, Plennydd, Alawn a Gwron.

Dewisodd Gwilym Cowlyd yr enw Gorsedd Taliesin am fod traddodiad wedi tyfu bod Taliesin Tad Awen wedi bod yn byw ar lan Llyn Geirionnydd. Dysgai i'r Cymry, disgynyddion Gomer mab Japheth, mab Noa, wedi iddynt lanio ym Môn yn 1788 Cyn Crist, ymgynnull ar lan Llyn Geirionnydd i addoli.

Haerai hefyd mai ystyr Geirionnydd oedd 'Gair Ionydd', sef Gair Duw. Arferai enw arall ar y llecyn sef Bryn y Caniadau, 'yr Wyddfa henafol yn yr hon yr addolai ein cyndadau y Goruchaf'.



BARDDONIAETH.

LLENYDDIAETH.

*Rhai o destunau Arwest 1898*

* * *

NI CHODWYD Cylch o Feini ar lan Llyn Geirionnydd. Yn wir, anaml y codid Cylch Gorseddol o gwbl yr adeg yma yn hanes Beirdd Ynys Prydain, ac yng nghynulliadau cynharaf Gorsedd Taliesin nid adroddid Gweddi'r Orsedd, er bod Ab Ithel a Myfyr Morganwg wedi rhoi cychwyn i'r arferiad ychydig yn gynharach mewn gorseddau eraill, ac nid adferwyd defod y Cleddyf i agor a chau'r Orsedd nac i urddo gorseddogion newydd.

Pwysleisiai Gwilym Cowlyd mai un iaith yn unig a ganiateid yn ystod yr Arwest, sef 'iaith Taliesin Ben Beirdd'. Dewisid llywyddion y cyfarfodydd yn y fan a'r lle a disgwylid i'r sawl a ddewisid annerch y gynulleidfa. Darllenai'r beirdd eu henglynion a rhoddid caine ar y delyn.

Cyhoeddid testun yr Englyn Bryfyfyr a neilltuai'r beirdd i gyfansoddi. Cenid yr utgorn i rybuddio'r beirdd i roi eu cyfansoddiadau i'r beirniaid. Arwisgid y buddugwyr â 'thalaith fedw'. Yna ceid ychydig o luniaeth, yng ngeiriau un drefnlen, – 'bwyta siot o bot y beirdd'.

Ond gydag amser gweddnewidiwyd pethau. Er i Gwilym Cowlyd fabwysiadu'r teitl 'Prifardd Pendant' a welodd yn llawysgrifau Iolo Morganwg, i'w ddisgrifio'i hun fel pennaeth yr Orsedd, dechreuwyd arfer y teitlau 'Prif Dderwydd' ac 'Archdderwydd' wrth gyflwyno llywyddion y seremoniau. Teitl y Dirprwy-bennaeth, sef Tubal Lleifiad oedd Prif Wyddon, un arall o deitlau Iolo.

Dechreuodd Thomas Roberts *(Scorpion)*, gweinidog yn Llanrwst, fynychu'r gorseddau ac yn 1868 cawn ef yn adrodd Gweddi'r Orsedd ac Owen Gwyrfai yn arfer defod y Cleddyf. Arferid hefyd danio ffrwydriadau i gyhoeddi bod yr Arwest ar gychwyn.

Cafwyd mwy a mwy o gystadlaethau, megis Awdl, Cywydd, Hir a thoddaid ac Englyn, canu crwth a thelyn, traethodau, 'datgeiniaeth' a gwaith llaw yn ychwanegol at y cyfansoddi byrfyfyr. Cynhaliwyd hefyd arholiadau i'r ymgeiswyr am urddau gorseddol.

* * *

CEISIODD Gwilym Cowlyd ymestyn terfynau awdurdod ei Orsedd a mynnodd ailenwi ei orsedd yn 'Cadair Barddol Tywysogaeth Cymru, nid amgen Cadair Warantiedig Gwynedd, Môn, Manaw a Phowys ac Is Conwy' gan gyhoeddi nad oedd gan Orsedd 'gyfeiliornus' yr Eisteddfod Genedlaethol unrhyw awdurdod yng Nghymru na Gorsedd y Maen Chwŷf, Pontypridd unrhyw awdurdod ac eithrio yng Ngwent. Honnai fod i'w Orsedd swyddogaeth grefyddol arbennig. Hi oedd 'Offeiriadaeth y Cyntafanedig, Gorsedd Barddas Iesu Grist'.

Yn 1887, ac yntau yn drigain oed, derbyniodd fedydd esgob. Dechreuodd gondemnio Gorsedd yr Eisteddfod Genedlaethol fel 'Gorsedd Wleidyddol y Dadgysylltwyr' am ei bod yn rhoi llwyfan i Ryddfrydwyr a Gweinidogion Ymneilltuol.

Aeth ati hefyd i geisio creu rhwydwaith newydd o ymlynwyr. Roedd esgob Bangor, *(Llwyd o Lan Llethi)* eisoes wedi'i wneud yn aelod o Orsedd yr Eisteddfod Genedlaethol pryd y gwahoddwyd ef gan Gwilym Cowlyd i Orsedd Taliesin gan gynnig iddo'r teitl 'Archdderwydd'.

Gohebai ag esgobion eraill hefyd megis Alfred George Edwards, esgob Llanelwy a John Owen, esgob Tyddewi, hyd yn oed ag esgobion o Saeson gan eu gwahodd i'w Orsedd.

Wedi iddo fethu cael cefnogaeth yr Anglicaniaid trwy lythyrau sy'n darllen fel pe baent yn gynnyrch meddwl hollol orffwyll, dyma lythyr oddi wrtho at Ficer Apostolaidd Cymru yn ei wahodd i Fryn y Caniadau, 'yr hon', meddai, 'yw Cadair Warantiedig Tywysogaeth Cymru yng Nghyntefig a Thragwyddol Melchisedec', a llythyr arall wedyn ar y Prif Rabbi Iddewig.

Pan ddarllenodd yn y Wasg fod y Tad Ignatius o Nant Hodni yn bresennol yng Ngorsedd Blaenau Ffestiniog, 1895, fe ysgrifennodd ato yn ei rybuddio rhag mynychu 'Cadair a Gorsedd Satan'.

Yn 1896 cyhoeddodd ddatganiad Saesneg yn galw Gorsedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn 'counterfeit fabrication or fraudulent imposition' ac yn rhybuddio gorseddogion y byddent yn colli eu hurddau pe byddent yn mynd ar ei chyfyl.

* * *

AR DROAD y ganrif cysylltodd â swyddogion Ystâd Gwydyr i geisio cael gweithred gyfreithiol i sicrhau hawl Gorsedd Taliesin i gyfarfod 'am byth' ar lan Llyn Geirionnydd. Ond ofer fu'r cais.

Mae nifer o lythyrau ar gael a chadw yn Llyfrgell Coleg Bangor yn tystio ei fod tua'r cyfnod yma yn danfon 'gwŷs a gwahawdd' i'r Orsedd yn Saesneg, hyd yn oed at Gymry, a Saesneg yw iaith tystysgrif ymaelodi ei Orsedd, a'i theitl yw 'Bardic Fraternity of Glan Geirionnydd and Warranted Gorsedd & Chair of Welsh Bardism'.

Danfonwyd 'gwŷs a gwahawdd' olaf y Frawdoliaeth at yr aelodau yn 1904. Roedd Gorsedd Taliesin i'w chynnal ym mis Awst ac ynddi roedd Penfro, offeiriad Llansant-ffraid Dyffryn Conwy, un o'r ffyddloniaid, yn bwriadu – nid urddo beirdd trwy arholiad ond yn hytrach 'conffirmio henaduriaid' gan roi i ddefodau Gorsedd Taliesin arwyddocâd Anglicanaidd a Phatriarchaidd.

Ond roedd Gwilym Cowlyd, oherwydd llesgedd, yn analluog i fod yn bresennol. Yn wir, ni chynhaliwyd yr Orsedd honno o gwbl, ac ym mis Rhagfyr bu farw'r Prifardd Pendant, 'The Chief Bard Positive', a chydag ef Orsedd Taliesin.